# Telerau ac Amodau Credydau Gwersi Nofio Casnewydd Fyw

Drwy dalu am gredydau nofio, rydych yn cadarnhau eich derbyniad o'r telerau ac amodau isod.

**Diffiniadau**

i. CF: Casnewydd Fyw
ii. Ni: Casnewydd Fyw
iii. Aelod: Y person rydym yn ei dderbyn i fod yn aelod o’r cynllun. Os yw’r aelod o dan 18 oed, mae’n rhaid i riant neu warcheidwad yr aelod weithredu fel gwarantydd ar gyfer y credydau a bydd yn gyfrifol am dalu am y cynllun credyd.
iv. Chi: Yr aelod
v. Cynllun: Y cynllun credyd a gynhelir gan CF yr ydych wedi cytuno i ymuno ag ef.
vi. Credyd: Un wers sengl o fewn bloc o 10, a brynwyd fel credyd gwers nofio.

**Hawl Credyd**

Mae un credyd gwers nofio a brynwyd yn cynnwys 10 x 1 gwers nofio 30 munud gyda hyfforddwr cymwys bob wythnos.

**Telerau ac Amodau**

i. Nid oes modd trosglwyddo credydau.
ii. Os ydych chi'n dewis gadael neu’n cwblhau'r rhaglen, gall credydau gael eu trosglwyddo i gyfrif aelod o'r teulu o fewn y rhaglen nofio. Ni fydd gennych hawl i unrhyw ad-daliad os hoffech dynnu aelod o'r rhaglen.
iii. Rydym yn cadw’r hawl i newid telerau’r Cynllun – gan gynnwys y Telerau a’r Amodau hyn – unrhyw bryd. Gall hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i newid y rhestr o gyfleusterau hamdden y gellir eu defnyddio o dan y cynllun, gan newid diwrnod neu amser amserlen gwersi.
iv. Byddwch yn cydymffurfio â'r amodau defnyddio sy'n berthnasol i bob cyfleuster hamdden. Fodd bynnag, os oes gwrthdaro rhwng y Telerau a'r Amodau hyn a'r amodau defnydd ar gyfer unrhyw gyfleuster hamdden, y Telerau a’r Amodau hyn fydd drechaf.
v. Mae Casnewydd Fyw yn gweithredu rhaglen barhaus sy’n rhedeg trwy 50 wythnos o'r flwyddyn. Ni fydd aelodau sy'n defnyddio’r cynllun credyd gwersi nofio yn colli credydau am y 2 wythnos nad ydym yn gweithredu na phan fydd CF yn canslo unrhyw wersi wedi'u trefnu.
vi. Bydd pob cwsmer sy’n defnyddio’r Cynllun Gwersi Nofio trwy’r system gredydau yn derbyn cerdyn aelodaeth. Bydd y cerdyn aelodaeth hwn yn parhau yn eiddo i Casnewydd Fyw. Bydd gofyn i unrhyw unigolyn sy'n colli neu'n niweidio'r cerdyn aelodaeth hwn brynu un newydd.

**Dechrau eich Cynllun Credyd Gwersi Nofio**

i. Mae’n rhaid i'r holl gredydau gwersi nofio gael eu talu o flaen llaw, cyn bod unrhyw aelod yn dechrau ar raglen CF.

ii. Rydych yn cofrestru ar gyfer cytundeb lleiafswm, 10 wythnos, sy'n daladwy ag 1 rhandaliad wrth ymuno.
iii. Ni fydd eich cynllun (credydau nofio) yn parhau y tu hwnt i'r isafswm telerau a amlygwyd uchod nes i chi ddewis 'ychwanegu at eich cyfrif'.

**Cynnal eich Credydau Gwers Nofio**

i. Gall CF ganiatáu, ar ei ddisgresiwn ei hun, i'ch credydau Gwers Nofio gael eu cadw mewn achosion eithriadol lle mae cyflwr meddygol, salwch difrifol neu anaf difrifol yn atal aelod rhag defnyddio cyfleusterau. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth er mwyn cefnogi'ch cais cyn gwneud unrhyw benderfyniad.
ii. Ar ôl dychwelyd i'r rhaglen, ni allwn warantu y bydd lle ar gael yn eich dosbarth blaenorol. Fodd bynnag byddwn yn ceisio, lle bynnag sy'n bosibl, rhoi lle i chi mewn dosbarth arall ar yr un lefel – mae'n bosibl y bydd hyn ar ddiwrnod arall, ar adeg arall neu mewn cyfleuster hamdden arall.
iii. Os nad ydych yn mynychu gwers nofio, bydd credydau'n parhau i gael eu didynnu o gyfrif yr aelodau h.y., gwyliau.
iv. Dylid unrhyw gais i gadw credydau ar gyfrif gael ei wneud i'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid drwy ffonio 01633 656757 neu drwy anfon e-bost at customerservice@newportlive.co.uk

**Methu â gwneud Taliad Atodol Credyd ar gyfer eich Gwersi Nofio**

i. Bydd methu â gwneud taliad atodol credyd cyn i'r credyd olaf sy'n weddill gael ei ddefnyddio yn arwain at gael eich symud yn awtomatig o'r rhaglen gwersi nofio. Rhaid prosesu'r taliad atodol cyn dechrau eich gwers olaf. Ni fyddwch yn gallu mynychu gwersi nofio ac ni roddir unrhyw sicrwydd o le.
ii. Byddwch yn cael gwybod bod rhaid i chi ychwanegu at y credydau hyn drwy e-bost / ffôn pan fydd 3, 2 ac 1 credyd yn weddill ar y cyfrif. Bydd angen talu am y rhain cyn gynted â phosibl i aros o fewn y rhaglen, naill ai yn y cyfleuster hamdden neu dros y ffôn.

**Cyffredinol**

i. Nid yw'r Telerau a'r Amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.
**ii.** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â Chredydau Gwersi Nofio at y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid, Ffôn: 01633 656757. E-bostiwch customerservice@newportlive.co.uk
iii. Os bydd CF angen cysylltu â chi, byddwn yn e-bostio, ffonio neu'n ysgrifennu atoch gan ddefnyddio'r data personol a ddarparwyd gennych wrth i chi ymuno. Os bydd eich manylion cyswllt yn newid, eich cyfrifoldeb yw rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd.
iv. Os bydd llys, tribiwnlys neu gorff gweinyddol o awdurdodaeth gymwys yn gweld bod unrhyw un o'r telerau hyn yn hollol neu'n rhannol anghyfreithlon, annilys, di-rym, na ellir eu gorfodi neu'n afresymol, cânt eu gweld yn neilltuol ac ni fyddant yn effeithiol ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd y Telerau a'r Amodau eraill.
v. Caiff y Telerau a'r Amodau hyn eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â Chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r partïon yn cytuno i gyflwyno unrhyw anghydfodau i awdurdodaeth unigryw Llysoedd Cymru a Lloegr.
Mae hyn yn gytundeb gwasanaeth.

# Telerau ac Amodau Aelodaeth Gwersi Nofio Casnewydd Fyw

Dylech ddarllen a deall y telerau a’r amodau cyn cofrestru am aelodaeth gwersi nofio ar ran eich plentyn.

**Diffiniadau**

vii. CF: Casnewydd Fyw
viii. Ni: Casnewydd Fyw
ix. Aelod: Y person rydym yn ei derbyn i fod yn aelod o’r cynllun. Os yw’r aelod o dan 18 oed, mae’n rhaid i riant neu warcheidwad yr aelod weithredu fel gwarantydd ar gyfer yr aelod a bydd yn gyfrifol am dalu’r aelodaeth.
x. Chi: Yr aelod
xi. Cynllun: Y cynllun aelodaeth a gynhelir gan CF rydych wedi cytuno i ymuno ag ef.

**Hawliau Aelodaeth**

Mae’r aelodau gwersi nofio yn cynnwys 1 gwers nofio 30 munud o dan hyfforddiant gyda hyfforddwr cymwysedig yr wythnos a nofio diderfyn i’r aelod yn ystod amserau nofio cyhoeddus ym mhob cyfleuster hamdden.

vii. Ni ellir trosglwyddo aelodaeth.
viii. Ar rai adegau penodol, efallai na fydd mynediad at neu ddefnydd cyfleuster neu weithgaredd hamdden penodol yn bosibl. Ni fydd gennych hawl i unrhyw ad-daliad neu iawndal pe bai hyn yn digwydd.
ix. Rydym yn cadw’r hawl i newid telerau’r Cynllun – gan gynnwys y Telerau a’r Amodau hyn – unrhyw bryd. Mae’n bosibl y bydd hyn yn cynnwys ond nid yw’n gyfyngedig i restr y cyfleusterau hamdden y gellir eu defnyddio o dan y Cynllun, newid y gweithgareddau a gynigir ym mhob cyfleuster hamdden ac amrywio’r amserau pryd y gellir defnyddio’r gweithgareddau. Pan y cynigir newid sy’n fwy nag un mân neu dechnegol (er enghraifft, cynnydd mewn ffioedd aelodaeth), rhoddir o leiaf 28 diwrnod o rybudd i chi. membership fees) you will be given no less than 28 days’ notice.
x. Byddwch yn cydymffurfio â'r amodau defnydd sy'n berthnasol ar gyfer pob cyfleuster hamdden, fodd bynnag, os bydd gwrthdaro rhwng y Telerau a'r Amodau hyn a'r amodau defnydd ar gyfer unrhyw gyfleuster hamdden, bydd y Telerau a’r Amodau hyn yn drechaf.
xi. Mae Casnewydd Fyw yn gweithredu rhaglen barhaus sy’n para am 50 wythnos o'r flwyddyn. Bydd aelodau sy’n cael mynediad at yr aelodaeth gwersi nofio yn derbyn tair wythnos rydd y flwyddyn a fydd yn darparu ar gyfer unrhys gansliadau annisgwyl ayyb. Cyfrifir ffioedd Debyd Uniongyrchol gan nifer y gwersi nofio dros gyfnod o 12 mis, felly mae hyn yn cynnwys 47 wythnos/gwers (y telir amdanynt).
xii. Bydd pob cwsmer sy’n talu am Aelodaeth Gwersi Nofio trwy Ddebyd Uniongyrchol yn derbyn cerdyn aelodaeth. Bydd y cerdyn aelodaeth hwn yn parhau’n eiddo i Gasnewydd Fyw. Bydd gofyn i unrhyw unigolyn sy’n colli neu’n difrodi’r cerdyn aelodaeth hwn brynu un newydd.

**Dechrau eich Aelodaeth Gwersi Nofio**

iv. Mae’n rhaid i'r holl ffioedd aelodaeth gwersi nofio sy'n daladwy gael eu talu cyn bod unrhyw aelod yn dechrau rhaglen CF.

v. Byddwch yn cofrestru ar gyfer cytundeb sy’n 2 fis o leiaf; bydd 1 rhandaliad yn daladwy wrth ymuno, ac wedyn bydd 1 rhandaliad misol trwy ddebyd uniongyrchol.

vi. Rydych yn deall y bydd eich aelodaeth (taliadau debyd uniongyrchol) yn parhau y tu hwnt i'r telerau lleiafswm a amlygir uchod nes eich bod yn canslo eich aelodaeth. Gweler Canslo eich Aelodaeth Gwersi Nofio i gael rhagor o fanylion

vii. Mae ffi pro-rata yn daladwy pan fyddwch yn ymuno ar y dechrau i roi digon o amser i chi sefydlu eich Debyd Uniongyrchol cyntaf gyda'r banc.

viii. Bydd taliad pro-rata yn talu am y cyfnod o’ch dyddiad cyntaf ar y rhaglen, hyd at y diwrnod cyn eich diwrnod casglu taladwy y mis canlynol. Mae eich Debyd Uniongyrchol yn daliad treigl ac nid oes iddo ddyddiad ‘DOD I BEN’.

ix. Cesglir taliadau Debyd Uniongyrchol ar y 25ain o bob mis neu'r diwrnod gwaith agosaf ar ôl hynny.

**Rhewi eich Aelodaeth Gwersi Nofio**

v. Mae’n bosibl y bydd CF yn caniatáu i’ch Aelodaeth Gwersi Nofio gael ei rhewi mewn achosion eithriadol ac yn ôl ei hawl i benderfynu. Mae’n bosibl y bydd hyn yn cynnwys achosion pan fydd cyflwr meddygol yn atal aelod rhag defnyddio cyfleusterau am gyfnod o fis o leiaf. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth er mwyn cefnogi'ch cais cyn gwneud y penderfyniad.

vi. Wrth ddychwelyd i’r rhaglen ni allwn warantu y bydd lle ar gael yn eich dosbarth blaenorol. Fodd bynnag byddwn yn gallu, lle bynnag sy'n bosibl, rhoi lle i chi mewn dosbarth arall ar yr un lefel – mae’n bosibl y bydd hyn ar ddiwrnod amgen, ar adeg amgen neu mewn cyfleuster hamdden arall.

vii. Dylid cyflwyno unrhyw gais i rewi aelodaeth i’r Tîm Cwsmeriaid trwy ffonio 01633 656757 neu drwy e-bostiocustomerservice@newportlive.co.uk o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad pan fyddwch yn dymuno i'ch aelodaeth gael ei rhewi.

**Cyffredinol**

vi. Nid yw’r Telerau a’r Amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

**vii.** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau parthed eich Aelodaeth Gwersi Nofio at y Tîm Aelodaeth, Casnewydd Fyw, Pwll Nofio Rhanbarthol a Chanolfan Tennis, Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Casnewydd, NP19 4RA. Ffôn: 01633 656757. E-bostiwch customerservice@newportlive.co.uk

viii. Os bydd ar CF angen cysylltu â chi, byddwn yn e-bostio, ffonio neu’n ysgrifennu atoch gan ddefnyddio’r data personol a ddarparwyd gennych wrth i chi ymuno. Os bydd eich manylion cyswllt yn newid, ei gyfrifoldeb yw rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd.

ix. Os bydd llys, tribiwnlys neu gorff gweinyddol o awdurdodaeth gymwys yn gweld bod unrhyw un o’r telerau hyn yn hollol neu’n rhannol anghyfreithlon, annilys, di-rym, na ellir eu gorfodi neu'n afresymol, cânt eu gweld yn neilltuol ac ni fyddant yn effeithiol ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd y Telerau a’r Amodau eraill

x. Caiff y Telerau a’r Amodau hyn eu llywodraethu a’u dehongli yn unol â Chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae’r partïon yn cytuno i gyflwyno unrhyw anghydfodau i awdurdodaeth unigryw Llysoedd Cymru a Lloegr.
Mae hyn yn gytundeb gwasanaeth.

**Methu â gwneud Taliadau Debyd Uniongyrchol Misol ar gyfer eich Aelodaeth Gwersi Nofio**

iii. Bydd methu gwneud eich taliadau Debyd Uniongyrchol misol yn arwain at eich Aelodaeth Gwersi Nofio yn cael ei hatal. Ni fyddwch yn gallu mynd i wersi nofio na chael mynediad at nofio yn ystod amserau nofio cyhoeddus.

iv. Gofynnir i chi wneud y taliad cyn gynted ag y bo modd naill ai yn y cyfleuster hamdden, dros y ffôn neu ar-lein.
v. Hyd yn oed os bydd eich Aelodaeth Gwersi Nofio yn cael ei ateb, rydych yn atebol i dalu o hyd.
vi. Mae'n bosibl y bydd methu bodloni eich nifer lleiaf o daliadau yn arwain at gamau gweithredu yn cael eu cymryd er mwyn casglu'r arian sy'n ddyledus. Chi fydd yn talu'r gost hon.
vii. Pe bai amgylchiadau nas rhagwelir yn digwydd ac mae hyn yn effeithio ar eich gallu i dalu eich Debyd Uniongyrchol, cysylltwch â'r Tîm Aelodaeth i weld sut y gallwn eich cefnogi a dod o hyd i atebion er mwyn i chi allu cadw eich Aelodaeth Gwersi Nofio.

**Canslo eich Aelodaeth Gwersi Nofio**

i. Gallwch ganslo ein Aelodaeth Gwersi Nofio unrhyw bryd ar ôl y cyfnod lleiaf.
ii. Mae'n rhaid i chi ganslo eich Debyd Uniongyrchol 10 diwrnod cyn casglu eich Debyd Uniongyrchol.
iii. Cewch ganslo mewn 2 ffordd
iv. Drwy ffonio 01633 656757. Bydd angen i chi ddarparu cyfeiriad e-bost dilys er mwyn i'r cadarnhad eich bod yn canslo gael ei e-bostio atoch.
v. Trwy e-bostio customerservice@newportlive.co.uk Byddwch yn derbyn cadarnhad o ganslo trwy e-bost.
vi. Mae'n bosibl y bydd methu canslo trwy'r dulliau hyn yn arwain atoch chi'n mynd yn atebol am daliadau ychwanegol p'un ai a ydych yn defnyddio'r gweithgareddau a'r cyfleusterau hamdden sydd yn eich Aelodaeth Gwersi Nofio neu beidio.
vii. Mae angen i chi gadw eich cadarnhad o ganslo yn ddiogel oherwydd dyma eich unig brawf eich bod wedi canslo eich aelodaeth.